



Cylchgrawn

Hwyl yr Haf

**Holi
Aleighcia
Scott**



**Eisteddfod
Wrecsam**
Beth fydd yno?



Ewro 2025
Pob lwc i dîm
merched Cymru!



**Siocled a
Mônuts**
Hanes Mr Holt's



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



CYMRAEG

Dysgu
Learn

Croeso i gylchgrawn Hwyl yr Haf!

Eisiau darllen rhywbeth dros yr haf? Beth am ddarllen ein cylchgrawn...

Yn y cylchgrawn, mae erthyglau o bob math. 'Dyn ni wedi holi Aleighcia Scott, Tori James a mwy.

Mae erthyglau am gelf, yr Eisteddfod a phêl-droed - rhywbeth i bawb!

Mae cystadleuaeth yn y cylchgrawn. Bydd tri dysgwr yn ennill cwrs Dysgu Cymraeg am ddim.

Cofiwch gofrestru ar eich cwrs Dysgu Cymraeg nesaf ar dysgucymraeg.cymru - gwelwn ni chi ym mis Medi!

Dona Lewis

Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol



Cyrsiau newydd - disgownt 50%

Dysgu Cymraeg gyda ni'n barod? Defnyddiwch y côd 'CYW25' cyn diwedd Gorffennaf i gael disgownt 50% ar eich cwrs nesaf. Ewch i dysgucymraeg.cymru i gofrestru.

Interested in learning Cymraeg? New 'Entry' courses for beginners are starting in September. Use the code 'WELSH25' to get a 50% discount - just £50 for the year. Sign up at learnwelsh.cymru

Geirfa

erthyglau - articles

cystadleuaeth - competition

Prif Weithredwr - Chief Executive

darparwyr cyrsiau - course providers

dyluniwyd - designed

Lliwiau Hwyl yr Haf

Ar ddechrau pob erthygl, mae lliw yn dweud beth ydy lefel yr erthygl:

Melyn

Dysgu Cymraeg ar lefel Mynediad neu Sylfaen? Darllenwch rhain.

Glas

Dysgu Cymraeg ar lefel Canolradd? Darllenwch rhain.

Coch

Dysgu Cymraeg ar lefel Uwch? Darllenwch rhain.

Neu beth am roi cynnig ar bob un erthygl!?

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gweithio gyda darparwyr cyrsiau lleol, sy'n trefnu cyrsiau Dysgu Cymraeg. Am fwy o wybodaeth, ewch i dysgucymraeg.cymru

The National Centre for Learning Welsh works with local course providers, to deliver a range of Welsh courses. Go to learnwelsh.cymru for more information.

Diolch yn fawr i bawb wnaeth greu Hwyl yr Haf. Diolch i'r holl gyfranwyr a ffotograffwyr, ac i Anest Roberts, Angharad Prys, Manon Llwyd Bowen, Helen Morfydd, Helen Prosser a Hannah Thomas. Dyluniwyd gan Dylunio GraffEG.

Mae'r wybodaeth yn y cylchgrawn yn gywir wrth i ni fynd i'r wasg, ond gall pethau newid. All information is correct as we go to press, but may be subject to change.

CYNNWYS

4 Aleighcia Scott

6 Eisteddfod Genedlaethol Cymru

8 Siocled Siocled Siocled!

10 Hwyl dros yr Haf

12 Tim pêl-droed menywod Cymru'n creu hanes

14 Tiwtoriaid Yfory: David Thomas a Gwilym Morgan

16 Siwrnai siaradwyr Siarad

18 Jac Meri Ann

20 Y ferch a goncrodd Everest

22 Dod i adnabod Luned Rhys Parri

24 Deg Diwrnod Diddorol

26 Gweld sêr

22




20



10



Posau



Pos

Dych chi'n gallu cyfieithu'r geiriau yma? Dych chi angen dewis y gair Cymraeg cywir yn y rhestr. Rhowch y geiriau Cymraeg yn y blychau. Ar y diwedd, pa air sy'n cuddio yn y blychau glas?

- To revise (anrheg, adolygu, arholiad, anifail)
- Twenty (ugain, unman, unwaith, uwd)
- Next (newydd, noswaith, nofio, nesaf)
- How much? (ffair, faint, gofyn, gwario)
- Similar (taten, taflen, traed, tebyg)
- Too much (gormod, geiriau, gerddi, goriad)
- To wake up (damwain, digwydd, dysgu, deffro)
- A watch (oriawr, oriau, olaf, ochr)
- Now - North Wales (prynu, neithiwr, rŵan, rownd)
- Foggy (nain, nunlle, nwy, niwlog)

Dych chi'n hoffi gwneud posau? 'Dyn ni wedi gwneud pos a chwilair i chi. Mae'r atebion ar dysgucymraeg.cymru

t	b	l	o	d	y	n	y	d	s	n	e	c	a	c
b	o	f	f	t	a	e	b	n	t	o	p	p	h	r
w	i	r	f	g	m	n	a	o	s	p	a	e	r	h
y	s	c	h	n	u	c	t	r	d	d	f	e	m	o
t	n	s	u	e	g	h	w	h	l	l	h	p	c	h
y	w	n	f	p	u	l	a	e	s	c	w	o	h	r
d	a	y	u	r	i	l	p	u	w	a	l	g	g	i
c	d	u	d	a	s	d	o	l	d	d	f	f	w	a
y	h	a	w	y	r	e	n	p	j	l	y	l	r	e
m	c	i	ch	b	n	m	w	e	r	n	rh	t	d	d
y	th	l	y	u	i	o	p	a	t	s	d	f	i	g
l	h	y	m	l	a	c	i	o	j	l	l	m	o	r
o	c	w	b	u	n	m	g	w	e	r	o	p	p	h
g	d	g	ff	a	g	h	l	l	t	r	a	e	th	c
ch	b	n	m	h	l	o	r	w	e	d	s	a	p	b

Chwilair yr Haf

Dych chi'n gallu dod o hyd i'r geiriau yma?

awyren	dawnsio
blodyn	garddio
torheulo	glaw
bwyty	gwyliau
cacen	gwyntog
canu	haul
cerddoriaeth	môr
crempog	traeth
cymylog	ymklacio

Aleighcia Scott



Cantores reggae a DJ ydy Aleighcia Scott. Mae hi'n gweithio ar BBC Radio Wales, ac roedd hi ar Y Llais ar S4C.

Mae hi'n dod o Dredelerch yng Nghaerdydd, ac mae hi'n dysgu Cymraeg.

Yma, 'dyn ni'n holi Aleighcia am ganu a dysgu Cymraeg:

Wyt ti'n mwynhau canu?

Ydw, mae canu yn bwysig iawn yn ein teulu ni. Gwnes i ddechrau pan o'n i tua 7 oed.

Erbyn hyn, dw i wedi perfformio yn y 'Big Weekend' yng Nghaerdydd, ac yn Glastonbury, Boomtown a Jamaica.

Gwnes i ganu yn Gymraeg am y tro cyntaf yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, a mwynhau yn fawr.

Wyt ti'n mwynhau gweithio ar y radio?

Ydw, achos mae fel cael parti gyda chriw neis o bobl. Dw i'n hoffi chwilio am ganeuon newydd, a siarad â phobl.



Geirfa

perthyn - to belong
hyder - confidence
hyfforddwyr - coaches



Sut wyt ti wedi dysgu Cymraeg?

Gyda ap SaySomethingInWelsh yn gyntaf. Yna, es i i'r gwaith a dweud 'Reit, dw i ddim eisiau i neb siarad Saesneg â fi, dw i eisiau i chi siarad Cymraeg â fi.' Ro'n i eisiau clywed sŵn yr iaith, i ddeall a dysgu mwy.

Mae ffrindiau wedi fy helpu i ddysgu Cymraeg. Dw i wedi bod ar gwrs yn Nant Gwrtheyrn hefyd, sy wedi helpu gyda fy **hyder**.

Dw i eisiau gwneud popeth yn Gymraeg a Saesneg - dw i eisiau siarad a chanu yn y ddwy iaith.

Y Llais

Dych chi wedi gwyllo Y Llais ar S4C? Fersiwn Gymraeg o The Voice oedd Y Llais, ac roedd Aleighcia yn un o'r **hyfforddwyr**, gyda Bronwen Lewis, Bryn Terfel ac Yws Gwynedd. Enillydd Y Llais oedd Rose Datta o Gaerdydd. Roedd Rose yn nhîm Aleighcia. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy!

Bydd cyfres arall o Y Llais ymlaen ar S4C yn 2026.

Canu yn Gymraeg

Mae Aleighcia yn hoffi creu a pherfformio caneuon yn Gymraeg. Eleni, mi wnaeth cân Aleighcia gyrraedd rhif un yn siart reggae iTunes. Enw'r gân oedd Dod o'r Galon, a dyma'r tro cyntaf i gân Gymraeg gyrraedd top y siart!



Here, singer and presenter Aleighcia Scott speaks to us about her career and her Welsh language journey. Earlier this year, her song 'Dod o'r Galon' became the first Welsh-language song to hit number one on the iTunes Reggae chart.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Dych chi wedi bod i'r Eisteddfod Genedlaethol? Eleni, bydd yr Eisteddfod yn Wrecsam rhwng 2-9 Awst. Mae'n lle gwych i ymarfer siarad Cymraeg! Beth am ddysgu mwy am yr Eisteddfod?

Oeddech chi'n gwybod?


- Roedd yr Eisteddfod gyntaf yn Aberteifi yn 1176.
- Bydd Eisteddfod 2026 yn Sir Benfro - 850 mlynedd ers yr Eisteddfod gyntaf yn Aberteifi.
- Mae'r Eisteddfod yn y de a'r gogledd bob yn ail flwyddyn.
- Mae llawer o wobrau yn yr Eisteddfod, fel y Gadair, y Goron a'r Fedal Ryddiaith.

Pethau pwysig

Canolfan Groeso
Ar ôl cyrraedd yr Eisteddfod, ewch i'r Ganolfan Groeso. Yno, dych chi'n gallu gofyn cwestiynau fel hyn:

- Ble mae'r tŷ bach?
- Ga i fap os gwelwch yn dda?
- Faint o'r gloch mae'r maes yn cau?

Cyfieithu
Eisiau help gyda'r Gymraeg? Wrth y pafiliwn, mae canolfan gyfieithu. Ewch yno i ofyn am glustffonau.



Yr Archdderwydd
Dyma bennaeth yr Eisteddfod. Mae'r Archdderwydd yn arwain seremonïau'r Eisteddfod.

Seremonïau
Mae seremonïau fel y Coroni, y Fedal Ryddiaith a'r Cadeirio yn y pafiliwn. Yn y seremonïau, mae beirdd a llenorion yn cael gwobr.

Gorsedd y Beirdd
Pwy ydy Gorsedd y Beirdd? Beirdd, awduron, cerddorion ac artistiaid sy wedi gwneud llawer i Gymru a'r iaith Gymraeg. Maen nhw'n gwisgo gwyrd neu las.

Dysgwr y Flwyddyn
Bob blwyddyn, mae un person yn ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn. Mae'r wobr yn cael ei chyflwyno mewn seremoni ar ddydd Mercher yr Eisteddfod.



Geirfa

maes - Eisteddfod field
canolfan gyfieithu - translation centre
clustffonau - headphones
Medal Ryddiaith - Prose Medal
Archdderwydd - Archdruid
arwain - to lead
beirdd - poets
llenorion - writers
Gorsedd y Beirdd - Gorsedd of the Bards
cerddorion - musicians
profiadol - experienced
adloniant - entertainment
unigolion - individuals
gwerin - folk
peirianeg - engineering

Mae llawer o bethau ar y maes. Dyma restr i chi:

Paned

Yn gyntaf, paned neu beth am smŵddi? Mae sawl caffi ar y maes.

Maes D

Eisiau ymarfer siarad Cymraeg? Ewch i Maes D i gyfarfod dysgwyr eraill, a gwranddo ar gystadlaethau'r dysgwyr.

Pentref Celf

Hoffi celf? Yn y pentref celf, bydd gwaith gan artistiaid profiadol a rhai newydd.

Encore

Yma, mae sesiynau, sgysiau ac adloniant cerddorol o bob math.

Cinio

Barod am ginio? Mae digon o ddewis ar y maes!

Pafiliwn

Ar ôl cinio, beth am fynd i'r pafiliwn? Bydd corau ac unigolion yn cystadlu drwy'r prynhawn.

Tŷ Gwerin

Eisiau gweld mwy o berfformio? Yn y Tŷ Gwerin, bydd bandiau gwerin yn canu.

Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Hoffi gwyddoniaeth, technoleg, mathemateg a pheirianeg? Dyma'r lle i chi!

Stondinau

Eisiau prynu llyfr, dillad neu anrheg? Mae llawer o siopau ar y maes.


Sinemaes

Beth am ymlacio cyn mynd adref? Ewch i wyllo ffilm yn Sinemaes!

Y PAFILIWN

Tocynnau

Eisiau prynu tocyn i'r Eisteddfod? Dych chi'n gallu prynu tocyn ar-lein, neu ar y maes. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan yr Eisteddfod: eisteddfod.cymru



Have you been to the National Eisteddfod of Wales? This major festival is held every August, and will take place in Wrexham this year. In this article, we look at some of the main attractions, and how you can get a little bit of help with your Cymraeg on the maes.

SIOCLED SIOCLED SIOCLED!

Dych chi'n hoffi siocled? Mae ffatri siocled newydd o'r enw Mr Holt's wedi agor yn Llangefni, Ynys Môn.

Mae dyn o'r enw Richard Holt wedi agor y ffatri. Mae Richard yn gwneud bariau siocled, ac yn rhoi enwau Cymraeg ar y bariau, fel jiraff, gwddihw, clasur a hiraeth.

Mae'r ffatri yn gwneud dros 5,000 o fariau siocled bob dydd!

Richard yw perchennog Melin Llynon, sy hefyd ar Ynys Môn. Yno, mae Richard yn gwerthu cacennau Mônuts sy'n boblogaidd iawn.

Yma, 'dyn ni'n holi Richard am y busnes:

Ers pryd dych chi'n coginio?

Pan o'n i'n fach, roedd mam yn coginio mewn ysgol, ac roedd Dad yn rhedeg cwmni hufen iâ. Mi es i i'r brifysgol i wneud cerddoriaeth. Ond wedyn, es i i weithio mewn tŷ bwyta ar Ynys Môn, a dyna'r dechrau.

Beth dych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Gweld plant ac oedolion yn mwynhau bwyta'r siocled a'r cacennau.

Pwy sy'n gweithio gyda chi?

Mae mam yn gweithio yn y felin, a dad yn y ffatri siocled. Felly mae'n braf cael teulu yn y busnes. Mae llawer o'r staff yn dysgu Cymraeg, ac yn mwynhau ymarfer siarad yr iaith gyda'r cwsmeriaid.

Beth sy'n gwerthu'n dda?

Mônuts - yr un pinc! 'Dyn ni'n gwerthu dros 100,000 ohonyn nhw bob blwyddyn.

Dych chi'n defnyddio cynnyrch lleol?

Wrth gwrs. Mewn donuts rhiwbob a chwstard, mae'r rhiwbob yn lleol. Maen nhw'n hyfryd!

Beth am ddisgrifio diwrnod yn y gwaith?

Dw i'n codi am ddau y bore, ac yn y gwaith erbyn tri y bore. Dw i wedi gorffen coginio'r donuts erbyn naw o'r gloch. Wedyn, dw i'n mynd i'r ffatri siocled, i weld amserlen y dydd. Bob prynhawn, dw i'n ateb e-byst, prosesu archebion ac yn postio negeseuon ar Facebook ac Instagram. Mae pob dydd yn brysur!



Kate (dyweddi Richard),
Richard Holt (tad Richard),
a Richard.

Dych chi'n brysur drwy'r flwyddyn?

Mae mis Awst yn brysur iawn, achos mae pobl sy ar wyliau yn dod i'n gweld ni. Yn y felin, 'dyn ni'n brysur yn y gwanwyn a'r haf. Yn y ffatri siocled, 'dyn ni'n brysur yn yr hydref a'r gaeaf, achos Calan Gaeaf, y Nadolig a Santes Dwynwen.

Beth yw eich cyngor i rywun sy eisiau dechrau busnes?

Dych chi angen bod yn barod i weithio'n galed, ac ewch amdani!

Dych chi'n ymlacio ar ôl diwrnod o waith?

Ydw, dw i'n hoffi eistedd allan yn yr haul, a chwarae'r gitâr.

Beth nesaf i'r busnes?

Dw i eisiau bod y Cadbury Cymraeg!



Geirfa

gwddihw - owl
perchennog - owner
cynnyrch - produce
archebion - orders
dyweddi - fiancé

Richard Holt has recently opened a chocolate factory near Llangefni on Anglesey. He has run the former mill at Melin Llynon for a few years, which sells the popular 'mônuts' donuts. Here, he tells us about the business, and shares with us a typical day at work.



Hwyl dros yr HAF

Eisiau ymarfer eich
Cymraeg dros yr haf?
Dyma syniadau i chi:

GWYLIO



Beth fydd ar S4C dros yr haf?

Bydd llawer o ddigwyddiadau ar S4C dros yr haf, gan gynnwys:

- Tafwyl (14 - 15 Mehefin)
- Y Sioe Fawr (21 - 24 Gorffennaf)
- Eisteddfod Genedlaethol (1 - 9 Awst)



Gemau Pêl-droed Ewros Menywod Cymru

Bydd pob gêm Cymru ym mhencampwriaeth UEFA Ewros Menywod 2025 ar S4C. Bydd y tîm yn chwarae yn erbyn Yr Iseldiroedd, Ffrainc a Lloegr yn ystod mis Gorffennaf.

Beth fydd ar S4C yn ystod mis Medi?

Rownd a Rownd

Pennod arbennig yn dathlu pen-blwydd y gyfres yn 30 oed.

Dechrau Canu Dechrau Canmol

Pennod arbennig yn dathlu bywyd y gwleidydd Gwynfor Evans, y cyntaf i ennill sedd yn San Steffan ar ran Plaid Cymru.

Hefyd, bydd cyfresi newydd o **Am Dro** a **Chyfrinachau'r Llyfrgell** a llawer iawn mwy!

GWRANDO

Beth fydd ar BBC Radio Cymru dros yr haf?



Cwis Iodl Ieu

Bydd Iodl Ieu o raglen Trystan ac Emma yn gwneud cwis newydd.

Tapiau Coll

Bydd Barry 'Archie' Jones o'r grŵp Celt yn trafod sut cafodd y recordiadau o rai o'r albymau Cymraeg mwyaf enwog eu rhoi at ei gilydd.

Lisa Gwilym
Rhaglen gerddoriaeth ar Radio Cymru 2, bob dydd Llun i ddydd Iau.




DARLLEN

Beth am ddarllen llyfr Cymraeg? Mae dau lyfr newydd yn y gyfres Amdani yn y siopau:



Strimio gan Bethan Gwanas - Lefel Mynediad

Mae Hywel yn 19 oed ac yn dechrau busnes torri gwair, ar ôl i Taid adael strimiwr iddo yn ei ewyllys. Mae Hywel yn galaru ac yn cael gwaith mewn mynwent, ble mae'n dod o hyd i ffrindiau mewn lle annisgwyl iawn.



Dail Te gan Mared Lewis - Lefel Sylfaen

Dydy Sara ddim eisiau dweud celwydd wrth Terry, ei gŵr. Ond mae pethau'n anodd ers i Terry golli ei waith. Un diwrnod, mae Sara'n gweld hysbyseb yn y siop, ac mae'n cael syniad. Mae'n cofio am Nain oedd yn darllen dail te. Mae Sara yn newid i Serena, ond ydy hi'n gallu newid ei bywyd er gwell?

CYSTADLU



Eisiau cyfle i ennill cwrs am ddim?

Dych chi angen ysgrifennu 100 gair am eich ardal. Beth sy'n dda am yr ardal? Pam ddylai pobl ddod i'r ardal? Mae dysgwyr ar bob lefel yn gallu cystadlu. 'Dyn ni'n mynd i ddewis y tri darn gorau, a rhoi cwrs am ddim i'r enillwyr. Cofiwch gystadlu ar ein gwefan cyn 31 Awst - dysgucymraeg.cymru

PODLEDIADAU

Hoffi gwrando ar bodlediad?

Beth am droio un o'r rhain...



Sut i Ddarllen

Podlediad newydd gan Gyngor Llyfrau Cymru. Mae'r podlediad ar gael trwy Y Pod ac AM.




Ryngbi Cymru

Podlediad i ddysgwyr am rygbi gan Nicholas Williams a Carwyn Evans. Mae'r podlediad ar gael trwy Spotify.



Y Podlediad Dysgu Cymraeg

Podlediadau ar gyfer pobl sy'n dysgu Cymraeg, a siaradwyr Cymraeg newydd. Mae 'Podlediad Pigion y Dysgwyr', a phodlediad 'Pont' ar gael.



Geirfa



pencampwriaeth - championship
gwleidydd - politician
ewyllys - will
galaru - to grieve
mynwent - cemetery
annisgwyl - unexpected
er gwell - for the better

Do you want to practise your Welsh? Discover brand-new programmes on S4C and BBC Radio Cymru this summer. Or why not read a book from the Amdani series or listen to a podcast? You can also enter our competition for a chance to win a free Learn Welsh course - just tell us what makes your area special, and submit your entry on our website by 31 August - dysgucymraeg.cymru

Tîm pêl-droed menywod Cymru'n creu hanes

Ym mis Gorffennaf, bydd tîm pêl-droed menywod Cymru'n cymryd rhan ym Mhencampwriaeth UEFA Ewro 2025. Dyma'r tro cyntaf i'r tîm gyrraedd pencampwriaeth fawr.

Bydd 16 o dimau gorau Ewrop yn rhan o'r bencampwriaeth, yn y Swistir. Mae Cymru'n chwarae yng Ngrŵp D, gyda'r Iseldiroedd, Ffrainc a Lloegr.

Holi Catrin Heledd

Mae Catrin Heledd yn wyneb a llais cyfarwydd ar y teledu a'r radio. Mae hi'n gweithio ar S4C a BBC Radio Cymru. Mae hi wedi teithio'r byd gyda'i swydd, o Gemau'r Gymanwlad yn Awstralia i Gwpan Rygbi'r Byd yn Japan. Bydd Catrin yn teithio i'r Swistir fis Gorffennaf. Siaradon ni â hi am ei gwaith ac am bêl-droed menywod Cymru, wrth i'r tîm baratoi at yr Ewros.

Disgrifia ddiwrnod yn y gwaith...

Mae pob dydd mor wahanol. Weithiau, dw i'n cael cyfarfodydd yn y swyddfa, y diwrnod wedyn dw i'n holi hyfforddwr tîm pêl-droed Cymru, ac yna, y bore wedyn, dw i mewn stiwdio radio. Mae gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn rhoi amrywiaeth.

Uchafbwynt dy yrfa?

Mae sawl uchafbwynt wedi bod, ond Ewros 2016 yw'r pinac o hyd. Doedd gan neb ddisgwyliadau mawr ond roedd yn daith a hanner. Ro'n i'n lwcus i gael bod ar fws y chwaraewyr oedd yn gorymdeithio drwy strydoedd Caerdydd, ar ôl iddyn nhw ddychwelyd. Profiad bythgofiadwy.

Sut brofiad oedd bod ar laith ar Daith gyda Jess Fishlock?

Mae Jess yn hyfryd! Mae hi'n gymaint o hwyl ac yn teimlo mor gryf am ei Chymreictod. Roedd hi eisiau gwneud y rhaglen er mwyn gallu siarad Cymraeg â'i neiaint. Dw i'n falch iawn fy mod i wedi gallu bod yn ei chwmni, ac yn rhan fach o'i thaith gyda'r Gymraeg.

Beth wyt ti'n edrych ymlaen ato fwyaf am gemau UEFA Ewro Menywod 2025?

Dw i mor falch bod Cymru yn mynd i'r Swistir. Fel rhywun sy wedi gweithio ar eu gemau nhw ers blyneddau, dw i wedi gweld sawl ymgyrch siomedig ar hyd y ffordd. Dw i'n edrych ymlaen at y gemau, a gweld y cefnogwyr fydd yno.

Catrin Heledd, Lyn Jones, Sioned Harries ac Ifan Phillips

Gemau Cymru

Eisiau gwyllo'r gemau? Bydd S4C yn dangos pob gêm Cymru. Cofiwch am y dyddiadau yma...

- 5 Gorffennaf - Cymru v Yr Iseldiroedd (6yh)
- 9 Gorffennaf - Cymru v Ffrainc (9yh)
- 13 Gorffennaf - Cymru v Lloegr (9yh)

Cymru Women's Football Team has made history by qualifying for UEFA Women's Euro 2025, which will be their first international tournament. The team will be heading to Switzerland in July where they'll face the Netherlands, France and England. All games will be broadcast live on S4C.



Tîm Pêl-droed Menywod Cymru



Nia Jones, Sophie Ingle a Catrin Heledd



Catrin Heledd, Lloyd Lewis a Ken Owens

Geirfa

pencampwriaeth - championship
Gemau'r Gymanwlad - Commonwealth Games
trwy gyfrwng y - through the medium of
disgwyliadau - expectations
gorymdeithio - to march
neiaint - nephews
ymgyrch - campaign
arbrofi - to experiment
pencampwyr - champions
Cynghrair y Cenedloedd - League of Nations
cenhedlaeth - generation
camp - sport

Beth yw cryfderau tîm pêl-droed menywod Cymru?

Mae unigolion gwych yn y tîm. Mae'r hyfforddwr Rhian Wilkinson yn hoffi arbrofi gyda'i thimau a rhoi cyfle i bawb. Ychydig dros flwyddyn mae hi wedi bod yn y swydd, ond mae hi wedi gwneud gwahaniaeth mawr.

Pwy wyt ti'n credu fydd y sialens fwyaf i Gymru yng Ngrŵp D?

Mae'r grŵp yn un anodd iawn! Mae Ffrainc, yr Iseldiroedd a Lloegr yn dimau gwych. Lloegr fydd y sialens fwyaf - nhw yw'r pencampwyr presennol. Fydd hi ddim yn hawdd, ond mae chwarae yn erbyn timau da yng Nghynghrair y Cenedloedd yn ddiweddar wedi bod yn ymarfer da.

Beth mae cyrraedd gemau'r Ewros yn ei olygu i Gymru?

Mae'n ddechrau taith fydd yn parhau am flynyddoedd gobeithio! Mae cenhedlaeth o ferched ifanc yn tyfu yn gweld eu harwyr yn llwyddo ar y cae. Mae'n ein rhoi ni ar y map, a'r gobaith yw y bydd mwy o ferched yn chwarae pêl-droed. Mae'r gamp yn tyfu, a dylid diolch i'r tîm cenedlaethol am hynny.



Catrin Heledd is a Sports Journalist and Broadcaster, best known for her work on the BBC and S4C. In this article, she gives us a taste of her working day, and shares her thoughts on Cymru Women's Football Team as they prepare for the UEFA Women's Euro Championship in Switzerland in July.

Tiwtoriaid Yfory:

David Thomas a Gwilym Morgan

Bydd David Thomas a Gwilym Morgan ymhlith 15 o fyfyrwyr fydd yn mynd ar gwrs 'Tiwtoriaid Yfory' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol dros yr haf.

Mae'r ddau wedi ennill gwobrau cenedlaethol, maen nhw'n berchnogion busnes ac wedi'u magu yng Nghaerdydd. Erbyn hyn, maen nhw'n edrych ymlaen at gael blas ar weithio fel tiwtoriaid yn y sector Dysgu Cymraeg. Dyma ychydig o'u hanes...

David Thomas

Yn wreiddiol o Gaerdydd, ac yn dilyn cyfnod yn byw yn Llundain, mae David erbyn hyn yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd ei fagu mewn cartref di-Gymraeg, a chafodd ei brofiad cyntaf o'r Gymraeg yn Eisteddfod Cwm Rhymni 1990, a theimlo'r bwrlwm oedd ar y maes. Penderfynodd bryd hynny y basai'n dysgu'r iaith ryw ddydd.

Yn 2018, sefydlodd David a'i ŵr, Anthony, eu busnes, *Jin Talog*, a dechreuodd David ddysgu'r Gymraeg. Mi wnaeth ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol AmGen 2021.

Roedd y Gymraeg yn rhan bwysig o lwyddiant *Jin Talog*. Roedd yr iaith ar ddeunyddiau marchnata'r cwmni, ac roedd David yn arwain teithiau tywys o amgylch y distyllfa yn Gymraeg. Roedd David eisiau dangos i'r cwsmeriaid bod y Gymraeg yn ffynnu ac yn iaith fyw.

Yn ddiweddar, penderfynodd David ac Anthony gau'r busnes i ganolbwyntio ar bethau eraill. Mae David nawr yn astudio gradd mistr mewn Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae David yn edrych ymlaen at gwrdd â phobl eraill ar y cwrs Tiwtoriaid Yfory, a dysgu sgiliau newydd.

Meddai: "Mae fy mhrofiad Dysgu Cymraeg wedi bod mor gadarnhaol. Dw i wedi cael fy ysbrydoli gan nifer o diwtoriaid. Fel rhywun sy wedi bod trwy'r broses o ddysgu Cymraeg, mae gen i bersbectif o sut mae'n teimlo. Mae'r Gymraeg wedi trawsnewid fy mywyd. Dw i eisiau helpu pobl eraill i ddarganfod a meistroli'r iaith."



Gwilym Morgan

Mae Gwilym hefyd yn dod o Gaerdydd, a dysgodd y Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn y ddinas.

Dechreuodd ei ddiddordeb yn y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. Yn 2023, pan oedd yn y Chweched Dosbarth, enillodd Fedal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin.

Ar hyn o bryd mae Gwilym yn astudio Cymraeg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hefyd yn rhedeg busnes o'r enw 'GM Notebooks' sy'n gwneud adnoddau i ddysgwyr - gmnotebooks.sumupstore.com.

Meddai Gwilym, "Mae ennill Medal y Dysgwyr wedi newid fy mywyd. Mae wedi ysbrydoli popeth dw i wedi'i wneud ers hynny, gan gynnwys gwneud adnoddau i ddysgwyr a chreu busnes fy hun, *GM Notebooks*."

Ar ôl ennill y wobr, roedd Gwilym eisiau helpu pobl eraill i ddysgu Cymraeg. Erbyn hyn, mae'r busnes yn creu nifer o adnoddau gwahanol, ac yn stocio llyfrau Cymraeg i annog pobl i ddarllen a defnyddio'r iaith. Mae Gwilym yn ysgrifennu llyfr gramadeg ar hyn o bryd, sy'n cynnwys esboniad am reolau a gweithgareddau i ymarfer.

Meddai Gwilym: "Dw i'n edrych ymlaen yn fawr at y cwrs. Dw i eisiau bod yn athro Cymraeg yn y dyfodol, felly bydd y cwrs yn gyfle ac yn brofiad da."

Dymuniadau gorau i'r ddau ar y cwrs!

Geirfa

ymhlith - among
perchnogion - owners
bwrlwm - excitement
deunyddiau - materials
distyllfa - distillery
ffynnu - to thrive
ysbrydoli - to inspire
meistrol - to master
adnoddau - resources



This summer, both David Thomas, 2021 National Eisteddfod Welsh Learner of the Year, and Gwilym Morgan, 2023 Urdd Eisteddfod Learners' Medal winner, will be among 15 students following the 'Tiwtoriaid Yfory' (Tutors of Tomorrow) course. The students will take part in practical sessions, observe lessons, and hear from guest speakers.

Siwrnai siaradwyr Siarad

Dych chi wedi clywed am gynllun Siarad? Mae'n paru siaradwyr Cymraeg â dysgwyr i sgwrsio'n anffurfiol. Y nod yw codi hyder dysgwyr a rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio eu Cymraeg yn lleol. Holon ni ddau bâr sy'n cymryd rhan yn y cynllun, sef Branwen ac Angela, a Meilyr a Gary.

Branwen ac Angela

Pwy dych chi ac o ble dych chi'n dod?

Branwen: Branwen Gwyn dw i, a dw i'n dod o Gaerdydd.

Angela: Angela Yeoman dw i. Dw i'n dod o Bontarddulais yn wreiddiol ond yn byw yng Nghaerdydd ers blynnyddoedd.

Pam ro'ch chi eisiau cymryd rhan yn y cynllun?

Branwen: Ro'n i eisiau helpu rhywun i ymarfer siarad Cymraeg. Dw i'n edmygu unrhyw un sy'n mynd ati i ddysgu'r iaith, ond yn gwybod efallai bod angen cyfleoedd ychwanegol ar siaradwyr newydd i sgwrsio'n rheolaidd.

Angela: Does dim llawer o amser gyda fi i fynd i weithgareddau Cymraeg yn ystod y dydd achos dw i'n gweithio'n llawn amser, felly ro'n i'n meddwl y basai cymryd rhan yn y cynllun yn syniad da.

Pa weithgareddau dych chi'n hoffi eu gwneud?

Branwen: Yfed a bwyta! 'Dyn ni'n hoffi mynd am baned neu ginio. 'Dyn ni fel arfer yn cwrdd unwaith y mis.

Angela: 'Dyn ni'n cwrdd dros ginio, yn bwyta neu'n cael coffi, fel arfer mewn lleoedd ble mae'r staff neu'r cwsmeriaid yn siarad Cymraeg.



Branwen



Angela

Oes unrhyw weithgaredd wedi aros yn y cof?

Branwen: Mae Angela yn gefnogol iawn. Daeth hi a'i gŵr i wyllo Esylt, fy merch, yn chwarae rhan Matilda yng Ngŵyl Theatr Awyr Agored Caerdydd yn 2023, a daeth i'n gweld ni'n dwy'n cystadlu ar y Ddeuawd Piano yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd llynedd.

Angela: Dechreuon ni gwrdd ar Zoom yn ystod y cyfnod clo - roedd y tro cyntaf i ni gyfarfod am goffi ar ôl y cyfnod clo yn wahanol iawn i siarad ar y sgrîn. Roedd y sgwrs mor naturiol. Ac am unwaith, do'n ni ddim yn siarad am gael ein brechiadau Covid, neu am hunanynysu!

Siarad.

Rhannwch eich Cymraeg

Eisiau ymuno â chynllun Siarad? Ewch i [Cynllun Siarad](#) | [Dysgu Cymraeg](#) am fwy o wybodaeth.

Siarad is a voluntary scheme to increase Welsh learners' confidence, and introduce them to opportunities to use their Welsh. We asked two Siarad pairs about their experiences. Interested in signing up to Siarad? Follow the next link for more information: [Siarad Scheme](#) | [Learn Welsh](#)

Meilyr a Gary

Pwy dych chi ac o ble dych chi'n dod?

Meilyr: Meilyr Rowlands dw i. Dw i'n dod o Ddyffryn Aman yn wreiddiol, ond yn byw yng Nghaerdydd ers tro erbyn hyn.

Gary: Gary Mathlin dw i. Dw i'n dod o Gasnewydd yn wreiddiol, ac yn byw yng Nghaerllion ar hyn o bryd.

Pa weithgareddau dych chi'n hoffi eu gwneud?

Meilyr: 'Dyn ni'n cyfarfod i gael coffi a chlonc.

Gary: Fel arfer, 'dyn ni'n siarad ac yn yfed coffi. Mae'n deimlad arbennig gallu siarad am awr yn Gymraeg. Ar ôl treulio amser gyda Meilyr, dw i bob tro yn teimlo fel siaradwr Cymraeg, ac nid fel dysgwr mewn dosbarth.



Meilyr

Gary

Pa bynciau dych chi'n hoffi eu trafod?

Meilyr: Hanes teulu, y newyddion, cŵn Gary, llyfrau a rhaglenni Cymraeg... ac mae gan y ddau ohonon ni ddiddordeb mewn gwyddoniaeth!

Gary: Beth sy ar y teledu, gwyddoniaeth, ein gyrfaod ym maes ffiseg ac astroffiseg, llyfrau Cymraeg a Saesneg, rygbi a chŵn.

Sut mae cynllun Siarad wedi eich helpu chi?

Meilyr: Mae'r cynllun Siarad yn ffordd ddymunol i siaradwyr rhugl helpu siaradwyr newydd. Dw i'n teimlo fy mod i'n [cyfrannu at yr achos](#)!

Gary: I fi, yr holl bwynt o ddysgu Cymraeg yw gallu siarad yr iaith yn y byd go iawn. Heb gynllun Siarad, faswn i ddim wedi cymryd y cam o fod yn ddysgwr i siaradwr newydd. Diolch o galon Meilyr!

Geirfa

edmygu - to admire
hunanynysu - self-isolation
Caerllion - Caerleon
cyfrannu at yr achos - contribute to the cause

Jac Meri Ann

Fiona Collins sy wedi ysgrifennu stori arbennig ar gyfer cylchgrawn Hwyl yr Haf. Mae'r stori wedi'i seilio ar lên gwerin ardal Wrecsam.

Roedd Meri Ann Jones yn byw yn ardal Wrecsam. 12, Tai Top, Ffordd y Stablau, Moss oedd cyfeiriad y tŷ. Tŷ teras cerrig ar y bryn oedd tŷ Meri Ann. Roedd hi'n gallu gweld yr holl ffordd i lawr y bryn i'r rheilffordd rhwng Moss a Wrecsam.

Roedd Meri Ann yn hoffi cadw'r tŷ yn daclus ac yn lân. Roedd hi isio cadw'r tŷ fel pin mewn papur. Ond roedd gan Meri Ann broblem.

Beth oedd y broblem?

Jac Jones, y gŵr, oedd y broblem, neu 'Jac Meri Ann', fel roedd pawb yn dweud.

"Su'mae, Jac Meri Ann," roedd ei ffrind Dic Dal-Deryn yn arfer dweud wrth Jac, bob tro roedd Dic yn cyfarfod Jac. Ble oedden nhw'n cyfarfod, fel arfer? Ar y ffordd i'r Clayton Arms, hoff dafarn y ddau, wrth gwrs.

Dim ond pan oedd Jac yn y Clayton Arms, neu i lawr yn y dref, oedd gan Meri Ann siawns i lanhau'r tŷ. Roedd byw efo Jac tipyn bach fel byw efo mochyn, mae'n ddrwg gen i ddweud.

Dyma un o storïau Jac Meri Ann, i ti weld os dw i'n dweud y gwir.

Unwaith yr wythnos, ar ddydd lau, roedd Jac yn hoffi cerdded i lawr i Wrecsam, ac yn mynd i'r Farchnad Da Byw, i weld yr ocsiynau. Bob wythnos, roedd Meri Ann yn edrych ymlaen at ddydd lau, achos roedd hi'n gallu glanhau'r tŷ, heb Jac dan draed.

Un tro, roedd hi'n penlinio ar stepen y drws, yn sgwrio'r garreg, wedi gorffen glanhau'r holl dŷ. Yn sydyn, gwnaeth Meri Ann weld Jac yn dod i fyni'r bryn. Ond doedd Jac ddim ar ei ben ei hun.



Roedd gafr efo fo! Hen afr denau fel cribyn, oedd yr afr. Doedd hi ddim yn edrych yn iach. Pam oedd Jac isio gafr?

Doedd Meri Ann ddim yn hapus. Dim o gwbl. Ond wnaeth hi roi ei dwylo ym mhoced ei ffedog, i roi cyfle i Jac siarad, cyn rhoi bonclust iddo fo.

"Pnawn da, Meri Ann, fy nghariad," dywedodd Jac, yn swnio fel rhywun sy'n siarad ar ôl peint neu ddau o gwrw.

"Pnawn da, Jac." Roedd llais Meri Ann yn swnio'n beryglus. Ond roedd gormod o gwrw tu mewn i Jac. Doedd o ddim yn clywed y perygl.

"Dw i'n hapus iawn, Meri Ann. Dw i wedi cael bargaen yn y farchnad. Am lwcl!"

"Beth oedd dy fargen, felly, Jac?"

"Wel - dyma hi! Ein gafr newydd, Meri Ann. Beth wyt ti'n feddwl, cariad?"



"Beth ydw i'n feddwl? Beth ydw i'n feddwl? Dw i wedi priodi'r twpsyn mwyaf yn y byd, dyna beth dw i'n feddwl, Jac! Pam wyt ti wedi prynu hen afr denau, hanner-marw?"

"O na, Meri Ann, na! Mae hi'n champion, wir i ti. Bydd hi'n rhoi llefrith i ni, a menyn, a chaws - i gyd yn rhad ac am ddim!"

"Doedd yr afr ddim yn rhad ac am ddim yn y farchnad, Jac, dydw i ddim yn meddwl. Ac mae gafr angen bwyd, angen mynd at y milfeddyg weithiau - mae'n ddrud iawn! Ond dyma'r broblem fwyaf: does gynnon ni ddim cae, does gan y tŷ ddim gardd. Ble wyt ti'n meddwl cadw'r afr?"

"Dw i wedi meddwl am bopeth, fy annwyl wraig. Mae'r afr yn gallu cysgu o dan ein gwely."

"O dan ein gwely?" Doedd Meri Ann ddim yn gallu credu fod Jac mor dwp. "O dan ein gwely? Ond beth am y drewdod?"

"Paid â phoeni, seren fy mywyd. Bydd yr afr yn dod i arfer â'r drewdod cyn bo hir."

!!!!

Does neb yn gwybod beth ddywedodd Meri Ann nesa.

Beth ydy dy farn di am Jac Meri Ann?

Druan o Meri Ann, gwraig anffodus Jac!

Geirfa

lên gwerin - folklore
da byw - livestock
penlinio - to kneel
sgwrio - to scrub

cribyn - rake
bonclust - clout
milfeddyg - vet
drewdod - stench

Y ferch a goncrodd EVEREST

Dych chi'n gwybod fod y Gymraes gyntaf i goncro Everest wedi dysgu Cymraeg?

Cafodd Tori James ei magu ger Maenclochog, Sir Benfro, ond mae hi'n byw erbyn hyn ger Caerdydd gyda'i gŵr a'u dau o blant, Max, 7 oed, a Genevieve, 4 oed.


Mae Max a Genevieve yn mynd i Ysgol Gymraeg Gwaelod y Garth, ac mae Tori wedi dechrau dysgu Cymraeg ers tair blynedd gyda Dysgu Cymraeg Caerdydd, sy'n cael ei drefnu gan Brifysgol Caerdydd ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cawson ni sgwrs â Tori i'w hadnabod yn well a chlywed mwy am ei hanturiaethau ar draws y byd.

Wyt ti'n gallu dweud ychydig am dy fagwraeth yn Sir Benfro?

Ces i fy magu ar fferm - fferm odro a grawnfwyd. Roedd 'na lawer o gyfleoedd am antur ar y fferm - adeiladu pontydd dros afonydd ac ati. Ond ches i ddim mynd i wersylla gyda fy rhieni. Do'n nhw ddim yn hoffi gwersylla!

Yna, yn 7 oed, ymunais i â'r Brownies. Prynais i fy sach gysgu gyntaf a dysgaïs sut i godi pabell. Yna, pan o'n i'n 14 oed, gwnes i gychwyn gyda Gwobr Dug Caeredin. Drwy'r Wobr, bues i'n cerdded yn mynyddoedd y Preseli, Bannau Brycheiniog ac Ynys Manaw.



Ces i hefyd fynd i Wlad yr Iâ gyda'r British Exploring Society tra yn yr ysgol. Ro'n i wrth fy modd yn yr eira a'r oerfel. Dw i'n dwlu ar yr oerfel.

Beth oedd dy her fawr gyntaf?

Ar ôl graddio mewn Daearyddiaeth yn Royal Holloway, Prifysgol Llundain, ces i fy swydd gyntaf gyda'r British Exploring Society. Roedd hon yn swydd berffaith i mi achos fy mod yn annog pobl ifanc i fynd ar alldeithiau i lefydd fel yr Arctig, Lesotho a'r Amazon.

Trwy fy swydd, cwrddais i â dwy fenyw ddywedodd, "Beth am wneud ras i Begwn y Gogledd?" a dywedais i "No way!". Ro'n i'n poeni am y tymheredd. Ond, dysgon ni nad oedd tîm o ferched wedi llwyddo i orffen y ras o'r blaen. Felly gwnaethon ni fynd amdani!

Enw'r ras oedd y Scott Dunn Polar Challenge. Roedd hi'n 360 o filltiroedd caled, mewn tymheredd hyd at -40 gradd Celsius. Ni oedd y tîm merched cyntaf erioed i gwblhau'r ras.

A'r her nesaf ar ôl hynny oedd concro Everest! O ble gest ti'r syniad?

Gofynnodd fy nghariad ar y pryd faswn i'n hoffi dringo Everest, a fy ymateb cyntaf eto oedd "Na, mae'n llawer rhy beryglus". Wedyn gwnes i ddarganfod nad oedd Cymraes erioed wedi bod ar gopa Everest - a ro'n i methu credu'r peth!

Ro'n i'n 25 oed ar y pryd a dywedais i, "Mae gen i un cyfle i wneud hyn - rhaid i mi fynd amdani nawr." Felly ymunais i â thîm o bedwar a chymerodd dros flwyddyn i ni baratoi ar gyfer y daith. Bues i'n hyfforddi yn yr Alpau yn Ffrainc, yr Alban ac Eryri wrth gwrs, fel Edmund Hillary a'i griw nôl yn 1953.

Roedd yn anodd hyfforddi a gweithio ar yr un pryd ond wedyn, gadawais i fy ngwaith i ganolbwyntio ar y pethau oedd angen eu gwneud i baratoi ar gyfer ein taith fawr.

Her arall anhygoel rwyt ti wedi'i gwneud ydy mynd mewn caiac, beicio a cherdded 1,100km o Land's End i John O'Groats yn 2014. Dyweda ychydig mwy am yr her yna.

Ian O'Grady gafodd y syniad. Roedd Ian yn arfer gweithio i'r RAF, ac roedd ei ffrind, Nick, wedi colli ei ddwy goes yn rhyfel Afghanistan. Ro'n ni eisïau dangos bod pobl sy wedi cael anafiadau drwg yn gallu gwneud heriau mawr.

Meddyliais i ddechrau, "Her ym Mhrydain? Fydd hon ddim yn anodd." Ond newidiais fy meddwl yn gyflym ar ôl bod mewn caiac am 34 awr heb saib... trwy'r nos!

Ro'n ni'n padlo mewn caiac o Land's End i Sir Benfro, Sir Benfro i Ynys Môn, Ynys Môn i Ynys Manaw ac Ynys Manaw i dde'r Alban. Roedd yn her feddyliol enfawr.

Pa her wyt ti wedi ei mwynhau fwyaf?

Roedd pob her yn wahanol - Ras Pegwn y Gogledd yn anodd achos y diffyg cwsg ac Everest yn anodd achos yr uchder. Ond dw i'n dwlu ar bob alldaith!




Felly beth fydd yr her nesaf?

Eleni, mae hi'n 50 mlynedd ers i'r fenyw gyntaf goncro Everest ac i nodi hynny, mae 14 ohonon ni (merched i gyd) yn mynd i ddringo Copa Yala, sy'n 5,550m o uchder yn Nepal. Mae'r daith yn cael ei threfnu gan gwmni o ogledd Cymru, Adventurous Ewe.

Ac i orffen - ble ydy dy le hapus?

Yn y mynyddoedd! Unrhyw fynydd. Mae'n lle hapus i mi.

Mae gan Tori bodlediad o'r enw The First Females Podcast, sy'n sgwrsio â merched o bob cwr o'r byd sy wedi llwyddo i goncro Everest, gyda phennod arbennig wedi ei recordio yn ystod alldaith Nepal 2025.



Geirfa

concro - to conquer
anturiaethau - adventures
fferm odro - dairy farm
grawnfwyd - cereal
Ynys Manaw - Isle of Man
alldeithiau - expeditions
meddyliol - mental
diffyg cwsg - lack of sleep
uchder - altitude

Tori James is a professional adventurer, author and speaker. She was the first Welsh woman to climb Mount Everest and has been on many other adventures.

She's also learning Welsh and has two young children in Welsh-medium education. In this interview, we learn a little more about Tori and her remarkable life.

Dod i adnabod Luned Rhys Parri

Mae Luned Rhys Parri yn artist talentog o Gymru, sy'n creu darnau o gelf 3D.

Mae ei gwaith yn aml yn cynnwys pobl, ac mae hi'n portreadu stori neu gymeriad y person trwy'r ystum neu'r symudiad yn y llun. Yn aml iawn, mae elfen o hiwmor yn ei gwaith.

Bydd gan Luned arddangosfa yn Oriel Ffin-y-Parc, Llandudno dros yr haf.

Cawson ni air â Luned am ei bywyd a'i gwaith.

O ble wyt ti'n dod?

Dw i'n wreiddiol o Lansannan yn Sir Ddinbych ond yn byw yn Y Groeslon, Gwynedd ers blynyddoedd.

Beth oeddet ti'n hoffi ei wneud yn blentyn?

Ro'n i wrth fy modd yn mynd allan i chwarae pan o'n i'n blentyn. Ro'n i'n hoffi chwarae gyda'r bechgyn ac yn torri pethau'n aml! Felly do'n i ddim yn cael defnyddio'r injan wnïo fel fy chwaer.

Dw i dal yn eithaf blêr ac yn teimlo ar goll os nad oes potel o PVA yn agos!

Pwy wnaeth dy ysbrydoli'n ifanc?

Roedd yr artist Peter Prendergast, fy narlithydd yng Ngholeg Menai, yn sicr yn ysbrydoliaeth.



Mi es i wedyn i Brifysgol Caerdydd a gwnaeth athro arall fy ysbrydoli yno, sef Terry Setch. Roedd e'n defnyddio llawer o sbwriel o'r traeth ac yn defnyddio cwyr i'w rhoi'n ôl at ei gilydd.

Gwnes i gymryd elfennau o'i waith yn fy collages cynnar.

Pryd wnest ti ddechrau creu'r gwaith 3D rwyd ti'n enwog amdano?

Gwnes i ddechrau gwneud llawer mwy o ddarnau 3D ar ôl gadael y Brifysgol. Y darn comisiwn cyntaf ges i oedd i greu murlun aml-gyfrwng gyda phlant Ysgol Aberdaron. Ac mae'r murlun dal yna hyd heddiw!

Ers pryd mae gen ti ddiddordeb mewn pobl?

Ers pan o'n i'n blentyn. Ro'n i'n mynd i'r capel bob wythnos ac yn aml, ro'n i'n diflasu. Felly, ro'n i'n cael pleser yn edrych ar y bobl yno - beth oedden nhw'n ei wisgo, sut oedd eu gwalltau ac ati.

Dw i hefyd yn hoffi gweithio â lluniau hanesyddol y ffotograffydd Geoff Charles - dw i'n hoff iawn o'i waith.

Wyt ti'n mwynhau cynnal gweithdai yn y gymuned?

Ydw - dw i'n aml yn cynnal gweithdai gyda phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a chlybiau ieuentid.

Dw i hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol, ac wrth



fy modd pan fydda i'n cael mynd at griw Antur Waunfawr, sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu.

Sesiwn arall sy'n aros yn y cof ydy un wnes i yn Yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd gyda Gofal Dementia. Gwnaethon ni lawer o waith paratoi cyn y sesiwn a sylweddoli fod gan bob un o'r bobl oedd yn byw â dementia gi pan oedden nhw'n blant.

Cawson ni lun o'r cŵn a llwyddodd pawb i greu model 3D ohonyn nhw yn mynd â'r ci am dro. Roedd edrych ar yr hen lun hefyd yn rhywbeth ro'n ni'n gallu sgwrsio amdano, a hel atgofion.

Oes hoff ddarn o waith gyda ti?

Dw i'n hoff iawn o'r gwaith wnes i'n creu fersiwn bach 3D o ddresel Meri Wells, artist sy'n byw ger Machynlleth. Roedd dresel Meri yn cynnwys darnau o waith cerameg gan amryw o artistiaid enwog - a phob un yn wahanol. Gwnes i ail-greu'r holl ddarnau unigryw ac mi gymrodd amser hir iawn!

Beth fydd i'w weld yn Oriel Ffin-y-Parc dros yr haf?

Bydd gen i gymysgedd o ddarnau yno dros yr haf, a bydda i'n rhannu'r arddangosfa gydag artist o Ddinbych, Sarah Carvell.



Geirfa

ystum - posture
symudiad - movement
injan wnïo - sewing machine
ysbrydoli - inspire
cwyr - wax
murlun aml-gyfrwng - multi-media mural
anableddau dysgu - learning disabilities
hel atgofion - reminiscing
unigryw - unique
cymysgedd - mixture



This is Luned Rhys Parry - a renowned Welsh artist who creates 3D art full of warmth and humour. Luned leads many workshops in schools and in the community and will be exhibiting her work at Ffin-y-Parc Gallery in Llandudno over the summer.

Deg Diwrnod Diddorol



Mae adnoddau 'Deg Diwrnod Diddorol' gan Cadw yn rhannu hanes gwych Cymru tra'n dysgu Cymraeg.

Mae'r adnoddau ar gael ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch – ac am ddim o wefan Cadw. Mae un set o adnoddau ar gyfer De Cymru, ac un set ar gyfer Gogledd Cymru.

Dau diwtor Dysgu Cymraeg, Tim a Claire Heeley, sy wedi creu'r adnoddau a ro'n ni eisiau gwybod mwy amdany'n nhw a'u diddordeb mewn hanes.

Pwy gafodd y syniad o greu adnoddau hanes i ddysgwyr?

Claire: Tim gafodd y syniad yn ystod y cyfnod clo. Roedd eisiau rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer siarad Cymraeg mewn safle hanesyddol. Ro'n ni wedi gweithio efo Cadw yn y gorffennol, ac ro'n nhw'n hoff iawn o'n syniad.

Tim: Dw i wedi dysgu Cymraeg fy hun, a dw i'n gwybod pa mor bwysig ydy cael cyfle i ymarfer siarad Cymraeg mewn llefydd gwahanol. Roedd y cyfle i ddefnyddio safleoedd Cadw yn wych.

Oes 'na ddysgwyr wedi profi'r adnoddau cyn cyhoeddi?

Claire: Oes, wir. Es i allan efo grwpiau yng Ngogledd Cymru, ac mae rhai o'n ffrindiau a'n teulu sy'n dysgu Cymraeg wedi eu profi. Dw i hefyd yn mynd i ddechrau treialu'r llyfrau efo dysgwyr byddar.

Beth ydy'r peth gorau am yr adnoddau?

Tim: Mae'r dysgwyr sy wedi bod ar deithiau efo ni yn mwynhau'r cyfle i ymarfer yr iaith mewn cyd-destun gwahanol ac efo dysgwyr eraill. Maen nhw hefyd yn hoffi dysgu am hanes Cymru, achos ei fod yn newydd i'r rhan fwyaf o bobl.

Dyma dri o Gestyll Tywysogion ac Arglwyddi Cymreig sy dan ofal Cadw:

Castell Dolbadarn, Llanberis

- Mae Castell Dolbadarn yn Llanberis, wrth droed yr Wyddfa.
- Mae'n un o'r ychydig gestyll ble mae'r tŵr crwn Cymreig yn dal i sefyll.
- Mae'n debyg bod Llywelyn ap Iorwerth wedi codi'r castell cyn iddo farw yn 1240.
- Yn ôl y sôn, cadwodd Llywelyn ei frawd Owain ap Gruffudd yn garcharor yma am 20 mlynedd!

Pa mor boblogaidd ydy'r adnoddau?

Claire: Mae fideos yr adnodd ar YouTube, a dan ni'n medru gweld fod pobl yn yr UDA ac India wedi gwyllo nhw, a hyd yn oed mor bell ag Awstralia!

Oes gynnoch chi hoff safle Cadw a pham?

Tim: Mae hi'n ofnadwy o anodd dewis un achos eu bod nhw mor amrywiol, ond dw i'n hoff o Blas Mawr yng Nghonwy.

Claire: Baswn i'n dewis Llys a Chastell Tretŵr, ger Crughywel, Powys.

Dach chi'n mynd i greu mwy o adnoddau i ddysgwyr yn y dyfodol?

Claire: Basen ni wrth ein bodau yn creu mwy o adnoddau! Be fasech chi'n hoffi ein gweld ni'n wneud nesaf?!

Mae'r adnoddau ar gael am ddim o wefan Cadw. Ewch i [Dysgu Cymraeg gyda Cadw](#) | [Cadw](#) am fwy o wybodaeth.



Castell Dolforwyn

- Mae Castell Dolforwyn ar fryn uwchben Cwm Hafren.
- Cafodd ei adeiladu gan Llywelyn ap Gruffydd yn 1273.
- Pan glywodd Brenin Edward am y castell, ysgrifennodd at Llywelyn yn ei wahardd rhag parhau â'r gwaith adeiladu. Atebodd Llywelyn nad oedd angen caniatâd y brenin arno i adeiladu ar ei dir ei hun.

Castell Rhaglan

- Castell Rhaglan oedd un o'r cestyll canoloesol olaf i gael ei godi yng Nghymru neu Loegr.
- Cafodd y Tŵr Mawr, gyda chwe ochr unigryw, a Phorth y De eu hadeiladu gan Syr William ap Thomas yn 1475.
- Roedd William yn uchelwr o bwys ac yn cael ei adnabod fel 'Y Marchog Glas o Went'.
- Ei fab, William Herbert adeiladodd y porth ysblennydd ar y castell, ac ychwanegu ystafelloedd o gwmpas dau gwr.



Geirfa

profi – to test
byddar – deaf
cyd-destun – context
amrywiol – varied
tŵr crwn – round tower
carcharor – prisoner
gwahardd – forbid
canoloesol – medieval
uchelwr o bwys – important nobleman
ysblennydd – splendid



Tim and Claire Heeley are the two Learn Welsh tutors behind innovative resources commissioned by Cadw to enable learners to experience Welsh history while developing Welsh language skills. Deg Diwrnod Diddorol – Ten Interesting Days are available at four learning levels: Mynediad, Sylfaen, Canolradd and Uwch with a set for days out in South Wales, and another set for North Wales.

Gweld sêr

Cafodd Dani Robertson, Swyddog Awyr Dywyll Parc Cenedlaethol Eryri, ei geni ym Manceinion, a symudodd y teulu i Rosneigr, Ynys Môn, pan oedd hi'n saith oed.

Roedd hi'n siarad Cymraeg yn blentyn, ond colodd hi gysylltiad â'r iaith nes iddi ddechrau gweithio i'r Parc yn 2019.

Trwy gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, aeth hi ar gwrs trochi yn Nant Gwrtheyrn yn 2019, a chafodd hi un wers yr wythnos am chwe mis.

Erbyn hyn mae Dani yn siarad Cymraeg bob dydd, a chawson ni air â hi am ei swydd yn gwarchod yr awyr dywyll yn Eryri.

Pryd ddechreuodd dy ddiddordeb yn y sêr?

Mae gan dad lot o ddiddordeb yn y sêr, ond doedd dim llawer o sêr ym Manceinion achos y llygredd golau. Felly, pan wnaethon ni symud i Ynys Môn, roedd dad yn mynd â fi i weld y sêr pan oedd yr awyr yn glir, a dysgais i lawer ganddo.


Beth wyt ti'n ei wneud yn dy swydd fel Swyddog Awyr Dywyll?

Mae Eryri yn warchodfa awyr dywyll, ac yn un o'r llefydd gorau yn y byd i weld y sêr.

Un o fy nyletswyddau ydy mynd allan i fonitro'r tywyllwch ar nosweithiau clir, heb leuad na chymylau. Mae llygredd golau yn gallu teithio o drefi cyfagos, fel Llandudno, Bangor a Blaenau Ffestiniog. Felly mae fy ngwaith yn ymestyn i gyrion y Parc hefyd.

Dw i hefyd yn mynd allan at y cyhoedd i addysgu am lygredd golau. Mae gen i arsyllfa symudol efo telesgop mawr, a dw i'n mynd i gymunedau ar draws Eryri, mewn ardaloedd hollol dywyll.

Mae fy ngwaith i hefyd yn edrych ar fioamrywiaeth, a gwarchod natur sy angen tywyllwch i fyw - pryfaid, tylluanod, adar ac ymlusgiaid. Dim ond pobl sy'n cysgu yn y nos!



Ai dim ond gweld sêr sy'n bwysig yn y nos?

Mae pawb eisiau gweld sêr, ond mae tywyllwch yn bwysig iawn hefyd. Mae'n bwysig o ran iechyd a lles, ac mae llygredd golau a diffyg tywyllwch yn gallu cael effaith ar hormonau, ac yn gallu arwain at broblemau iechyd meddwl.

Dyw llawer o bobl ddim yn mentro allan i'r tywyllwch, ac mae'n braf gallu rhoi profiadau gwahanol i bobl, a mynd â nhw allan yn y nos.

Beth fydd yn ddiddorol dros yr haf eleni?

Mae mis Awst yn amser da iawn i weld cawodydd seren wib yng Nghymru - y gawod fwyaf dan ni'n ei chael yn hemisffer y gogledd. Weithiau, mae dros 100 seren wib yr awr. Bydd yr uchafbwynt eleni rhwng 12 - 13 Awst.

Beth ydy'r peth gorau am dy swydd?

Mynd allan a chlywed bywyd gwyllt yn y nos. Ro'n i ar Ynys Enlli yn ddiweddar, sy'n Noddfa Awyr Dywyll. Mae'n lle arbennig i fywyd gwyllt, ac roedd yn braf clywed y morloi yn canu yn y nos, a gweld adar drycin Manaw yn clwydo ar y bryn ar ôl iddi hi dywyllu.

Beth yw dy gyngor i unrhyw un sy isio mynd allan i'r tywyllwch?

Edwch i rywle cyfarwydd, er mwyn cadw'n ddiogel, ac yn bell o unrhyw glogwyn neu dwll yn y ddaear.

Gwisgwch yn gynnes, dewch â mat campio i eistedd arno, a pheidiwch â theimlo unrhyw bwysau i weld unrhyw beth. Arhoswch am tua hanner awr.

Mae'n debyg i feddwlgarwch - dach chi ddim yn gallu gweld llawer, felly mae angen defnyddio synhwyrau gwahanol. Rhaid cofio hefyd ei bod yn cymryd tua 20 munud i lygaid arfer efo'r tywyllwch.

Ac wedyn mae angen bod yn ddistaw ac aros i weld beth fydd yn digwydd.

Geirfa

- cwrs trochi** - intensive course
- gwarchod** - to protect
- llygredd golau** - light pollution
- gwarchodfa awyr dywyll** - dark sky reserve
- cyfagos** - neighbouring
- cyrion** - outskirts
- arsyllfa symudol** - mobile observatory
- bioamrywiaeth** - biodiversity
- ymlusgiaid** - reptiles
- diffyg** - lack of
- cawodydd seren wib** - meteor showers
- Noddfa Awyr Dywyll** - Dark Sky Sanctuary
- morloi** - seals
- adar drycin Manaw** - Manx shearwaters
- clwydo** - to roost
- cyfarwydd** - familiar
- clogwyn** - cliff
- meddwlgarwch** - mindfulness
- synhwyrau** - senses

Dani Robinson is working in her dream job as the Dark Sky Officer with Eryri National Park. Her role is to protect the darkness and educate the community about light pollution and its effect on nature and wellbeing. She re-learned Welsh when she started her work with the National Park and now speaks the language every day.

Interested in learning Welsh?

New courses are starting in September, with a 50% discount on courses for beginners - use WELSH25 at checkout.



Already learning with us?

Sign up for your next course before the end of July to get an Early Bird discount - use CYW25 at checkout.

Aged 18-25?

You can enjoy Welsh courses for free - your discount will be applied automatically as you register.

Just go to learnwelsh.cymru for all the information.

Eisiau dysgu Cymraeg?

Mae cyrsiau newydd yn dechrau ym mis Medi, gyda gostyngiad 50% i ddechreuwr - defnyddiwch y côd WELSH25 wrth dalu.

Dysgu gyda ni yn barod?

Cofiwch gofrestru ar eich cwrs nesaf cyn diwedd Gorffennaf er mwyn cael gostyngiad Cyw Cynnar - defnyddiwch y côd CYW25 wrth dalu.

18-25 oed?

Dych chi'n gallu mwynhau cyrsiau am ddim - bydd y disgownt yn cael ei roi wrth gofrestru.

Ewch i dysgucymraeg.cymru am fwy o wybodaeth.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Dysgu
Learn